# CYNGOR SIR FYNWY

## Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir ar Dydd Iau, 14 Gorffennaf, 2016 am 10.00 am

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Sir S. Jones (Chairman)
Cynghorydd Sir (Vice Chairman)

Cynghorwyr Sir: D. Dovey, D. Edwards, D. Evans, J. Prosser, A. Watts and A. Wintle

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Hazel Ilett | Scrutiny Manager |
| Nicola Perry | Senior Democracy Officer |
| Kellie Beirne | Chief Officer, Enterprise |
| Cath Fallon | Head of Economy and Enterprise |
| Nicola Edwards | Strategic Food and Tourism Manager |
| Mark Hand | Head of Planning, Housing and Place-Shaping |
| Roger Hoggins | Head of Operations |

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorwyr Sir S. White and B. Hayward

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant gan Aelodau.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

3. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2016**

Oherwydd camgymeriad gweinyddol, cytunwyd gohirio cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2016 i'r cyfarfod nesaf.

4. **Craffu Adroddiadau Perfformiad Diwedd Blwyddyn ynghyd â Chytundebau Canlyniad a Chynllun Gwella**

Cyflwynodd Prif Swyddog Menter ddata diwedd y flwyddyn ar gyfer yr Amcanion Gwella sy'n dod dan gylch gorchwyl Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu:

- Amcan Gwella 3: Rydym eisiau galluogi ein sir i ffynnu.
- Amcan Gwella 4: Cynnal gwasanaethau sy'n hygyrch yn lleol.

Cyflwynodd yr adroddiad werthusiad o'r rhaglen a'r effaith dros dair blynedd y Cytundeb Canlyniadau 2013-16. Y themâu sydd dan gylch gorchwyl y pwyllgor:

- Cytundeb Canlyniadau Thema 3: Tlodi ac amddifadedd

Derbyniwyd hefyd y perfformiad diweddaraf ar y dangosyddion perfformiad cenedlaethol allweddol ehangach sydd dan gylch gorchwyl y pwyllgor.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir ar Dydd Iau, 14 Gorffennaf, 2016 am 10.00 am**

## Argymhellion:

Argymhellwyd bod:

- Aelodau'n craffu'r perfformiad a gyflawnwyd a'r effaith a gafwyd, yn neilltuol mewn meysydd dan gylch gorchwyl y pwyllgor, i asesu cynnydd a pherfformiad o gymharu â'r amcanion gwella.
- Aelodau'n craffu'r perfformiad a gyflawnwyd a'r effaith a gafwyd, dros dair blynedd (2013/14, 2014/15 a 2015/16) y Cytundeb Canlyniadau.
- Aelodau'n dynodi ac yn ymchwilio unrhyw feysydd o danberfformiad neu bryderon, a cheisio cadarnhad gan y rhai'n gyfrifol am weithgaredd y dyfodol lle daethant i'r casgliad fod angen i berfformiad wella.
- Aelodau'n cadarnhau'r sgorau gwerthuso yn seiliedig ar y dystiolaeth a roddwyd.

## Craffu gan Aelodau

Gofynnodd Aelod pam fod y perfformiad mewn tai yn gostwng a pha gynlluniau sydd i wella perfformiad y dyfodol. Esboniodd y Swyddog fod y cyfnod dan ystyriaeth yn adlewyrchu diwedd eithaf y Cynllun Datblygu Trefol ac nad yw nifer cwblhad o'r Cynllun Datblygu Lleol wedi dod i rym eto ac y caiff bwlch amser mewn safleoedd yn cyflwyno ei adlewyrchu yn y cyflenwad tir tai 4.1 mlynedd a gadarnhawyd. Rhoddir adroddiad ar y mater yn y cyfarfod nesaf fel rhan o'r adroddiad monitro blynyddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig. Esboniodd y Swyddog ymhellach y medrir priodoli'r nifer isel o anheddau a gwblhawyd i'r economi allanol, tai a gwblhawyd a diwedd y dirwasgiad.

Esboniodd y Swyddog fod perfformiad is o gymharu â'r targedau ar gyfer unedau tai fforddiadwy yn nodwedd o'r economi presennol a heriau'n gysylltiedig â hyfywedd cynlluniau. Ychwanegodd y Swyddog y byddai’n fanteisiol trafod argaeledd safleoedd yn y Pwyllgor Cynllunio. Cyfeiriodd at nifer datblygiadau a gymeradwywyd a'r nifer mwy diweddar a gwblhawyd mewn safleoedd mwy o bump a mwy o unedau yn 2015/16. Cymeradwywyd 150 uned fforddiadwy allan o 465 uned (32%).

Dywedodd Aelod fod Deddf Cynllunio 2015 yn rhoi pwyslais newydd i greu Cynlluniau Lle sy'n gydnaws â'r Cynllun Datblygu Lleol ac yn cynnwys cynghorau tref a chymuned, a holodd os byddai'r cynlluniau'n cael llawer o effaith gan fod preswylwyr eisiau diogelu eu bro. Ymatebodd y Swyddog na ddylai hyn achosi effaith oherwydd bod yn rhaid i'r cynllun adlewyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol. Ychwanegodd Prif Swyddog Menter y byddai'n rhaid i sbardunau polisi roi ystyriaeth i ffactorau eraill er enghraifft ffordd liniaru arfaethedig yr M4 a'r cynnydd a ragwelir yn y boblogaeth hŷn ynghyd â gostyngiad yn y boblogaeth iau fydd â goblygiadau difrifol i'r farchnad tai. Atgoffodd y Swyddog yr Aelodau fod yn rhaid i'r Cyngor fod â 5 mlynedd o gyflenwad tir tai. Gall y cyflenwad tir presennol o 4.1 mlynedd arwain at i ddatblygwyr awgrymu safleoedd y tu allan i'r Cynllun Datblygu Lleol.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd fod awdurdodau cyfagos mewn sefyllfa debyg; mae gan Gasnewydd, fodd bynnag, dros 6.3 mlynedd o gyflenwad tir tai yn bennaf oherwydd strategaeth twf lwyddiannus.

Holodd Aelod am effaith bosibl peidio symud ymlaen gyda safle Fairfield Mabey a'r hyn y gall yr awdurdod ei wneud i gefnogi newidiadau i effeithio ar ein gallu ein hunain i fuddsoddi mewn tai cymdeithasol. Ymatebodd y Swyddog drwy ddweud fod hyder y byddai safle Fairfield Mabey yn symud ymlaen i'r Pwyllgor Cynllunio eleni a bod swyddogion yn gweithio gyda'r ymgeiswyr yn unol â hynny. Nodwyd y bu 18 mis o oedi pan ystyriodd Lywodraeth Cymru bryderon yn ymwneud ag ansawdd aer a chapasiti traffig; mae'r pwyntiau hyn bellach wedi'u penderfynu. Ychwanegwyd fod elfen o gyfaddawd polisi i'w ystyried wrth ddyrannu safleoedd tir llwyd dymunol a chynaliadwy yn y Cynllun Datblygu Lleol megis y safle yma, sy'n agos at orsaf reilffordd a chanol y dref, wedi'i gydbwyso yn erbyn costau cysylltiedig swyddogol.

Yn nhermau tai fforddiadwy, dywedodd y Swyddog y gall landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn awr adeiladu tai fforddiadwy ar eu safleoedd eu hun a safleoedd eraill (e.e. rhoddwyd caniatâd i Melin adeiladu 58 uned ar safle Coed Glas fydd a chyfuniad o farchnadoedd gyda chyfran o dai fforddiadwy) ac a all gynnal prosiectau arloesol.

Esboniodd Swyddog y bydd angen ystyried datrysiadau arloesol i gynyddu argaeledd tai fforddiadwy i gynnal sir ac economi llewyrchus. Cynigir edrych yn wahanol ar safleoedd y mae'r cyngor yn berchen arnynt i ddarparu e.e. cyfran uwch o dai fforddiadwy, daliadaeth hyblyg neu dai cydweithredol. Nodwyd y bydd gwaith Dyfodol Sir Fynwy yn ystyried cynllunio sefyllfa ac awgrymu dulliau polisi i greu amodau ar gyfer cyfleoedd swyddi, busnes, menter a chyfleoedd tai i greu cymunedau lle mae pobl yn dewis byw neu y gallant aros ynddynt.

Holodd aelodau os gellir gwneud unrhyw beth i gefnogi tai cymdeithasol fforddiadwy ar gyfer pobl ifanc gan ddweud fod pobl ifanc eisoes wedi gadael yr ardal o blaid ardaloedd llai drud. Soniodd aelodau hefyd am yr angen i ddenu mwy o gyfleoedd swyddi i'r sir. Awgrymwyd mai cymdeithasau tai sydd yn y sefyllfa orau oherwydd arbedion maint ond na all cymdeithasau tai fforddio adeiladu mewn rhai ardaloedd. Dywedwyd hefyd nad yw rhai safleoedd mwy yn creu tai cost isel. Dywedodd y Swyddog y bydd cyfle i drafod y materion yn yr adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol ac y bydd yn bosibl ystyried opsiynau gwahanol a mwy blaengar megis aneddiadau newydd neu ehangu ardaloedd mwy gwledig mewn modd sensitif. Ychwanegodd y Swyddog fod Cyngor Sir Fynwy yn unigryw yng Nghymru yn ei safleoedd 60/40 lle mae 60% o dai fforddiadwy a 40% o dai marchnad. Caiff argaeledd a chynnydd tir cyflogaeth ei ystyried yn yr adroddiad monitro blynyddol nesaf.

Dywedodd y Cadeirydd y caiff yr adroddiad blynyddol ei graffu yng nghyfarfod mis Medi ac y gallai fod yn addas cynnal seminar i aelodau.

Cytunodd Prif Swyddog Menter fod angen seilwaith addas ac y bydd y Ddêl Dinas yn gyfle i drafod y ffordd orau i ddiogelu a chadw'r sir gyda'r angen am dwf ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Cododd Aelod fater y Cynllun Datblygu Gwledig a holodd am ba mor hir y sicrheir cyllid o gofio am Brexit ac os bydd yn bosibl cael cyllid yn lle hynny gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn y dyfodol. Eglurodd y Swyddog fod y rhaglen bresennol yn rhedeg hyd 2017, ac ar sail M+2 bydd cyllid yn parhau hyd 2019/20 ac y bydd unrhyw beth a

gymeradwywyd yn parhau. Dywedodd y Swyddog fod Llywodraeth Cymru yn gwthio am gadarnhad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig y ceir cyllid yn lle'r hyn a gollir.

Cytunwyd cynnal seminar i aelodau ar ganlyniadau yn dilyn Brexit.

Gofynnodd y Cadeirydd os yw'r mannau lle darperir AB Internet wedi eu gadael allan o ymateb band eang BT Superfast ac yn ail, pa ganran o adeiladau sydd â mynediad. Dywedodd y Swyddog nad oedd yr ardaloedd hyn wedi eu hatal ond gall fod oedi os yw mewn ardal 'anodd ei chyrraedd' lle mae ffibr i adeilad yn hytrach na ffibr i gabinet. Dywedodd y Swyddog na dderbyniwyd unrhyw ddata gan BT ers mis Rhagfyr 2015 gan ychwanegu fod contract marchnata BT wedi dod i ben ym mis Mehefin. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn gyfrifol am farchnata er mwyn annog defnydd. Ychwanegodd y Swyddog bod yr ymestyn ymhell o gael ei gwblhau o gymharu gydag ardaloedd eraill a sefydlwyd cysylltiadau uniongyrchol i sicrhau darpariaeth reolaidd o wybodaeth gyfoes. Cytunwyd gofyn i Lywodraeth Cymru fynychu'r Pwyllgor hwn a dywedodd ei bod yn bwysig cwblhau band eang cyflym iawn i annog diwydiannau technegol, preswylwyr a gweithwyr i symud i'r sir neu aros yma. Gan gyfeirio at yr ystadegau, cadarnhaodd y Cadeirydd yr ymgyrch i gynnal y nifer cynyddol o bobl sy'n byw a gweithio yn Sir Fynwy.

Gofynnodd y Cadeirydd os yw'r dangosyddion mesurau targed yn addas i fonitro'r Cynllun Gwella Gwasanaeth i ddynodi'n ddigonol y gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer y rhai mewn cymunedau anghysbell. Cytunodd y Swyddog mai dim ond rhan o'r sefyllfa y mae'r dangosyddion perfformiad yn eu dangos a hysbysodd Aelodau y comisiynwyd asesiad cynhwysfawr o anghenion gwasanaethau gwledig. Bydd yr asesiad yn cynnwys newidiadau demograffig a blaenestyniadau, a gaiff eu cyfuno gyda gwybodaeth a gesglir ar boblogaeth a llesiant i fod yn sylfaen well i dargedau mwy perthnasol.

Holodd Aelod pam y bu dirywiad mewn perfformiad mewn ailgylchu gwastraff ac ailddefnyddio. Esboniodd y Swyddog y cyflwynwyd rhai newidiadau i'r system bagiau ond nad oedd hyn yn gonsyrn neilltuol a bod Pwyllgor Dethol Cymunedau Cryf yn monitro perfformiad. Gofynnodd yr Aelod os gellid priodoli'r dirywiad i dri cherbyd yn dilyn ei gilydd o amgylch stadau a newidiadau llwybr. Esboniodd Pennaeth Gweithrediadau y bu gostyngiad mewn perfformiad yn benodol oherwydd mater yn gysylltiedig â gwaredu gwydr, a hefyd gynnydd mewn gwastraff gweddilliol oherwydd nad ydym yn ailgylchu lludw gwaelod. Cytunodd Pennaeth Gweithrediadau i drafod y materion penodol o'u wardiau gyda'r Aelodau perthnasol.

Holodd Aelod os yw gwaith yn mynd rhagddo a gyda phwy parthed y Cynllun Lle ar gyfer Ardal Gwy Isaf gan na wyddai am unrhyw gyswllt drwy wahanol fforymau. Cytunodd y Prif Swyddog Menter i gysylltu â'r Aelod ar wahân i roi diweddariad ac esbonio'r trefniadau ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol. Croesawodd yr Aelod gyfraniadau gan y gymuned leol a busnesau.

Gofynnodd Aelod os byddai Cynllun Lle Cyfan yn Nhrefynwy. Dywedodd y Swyddog y cynhaliwyd cyfarfod cadarnhaol i ystyried pa wybodaeth a data sydd ar gael ar hyn o bryd e.e. mae Cyngor Tref Trefynwy wedi dechrau gwaith. Holwyd os byddai Aelodau yn cymryd rhan. Cytunodd y Prif Swyddog, Menter i ofyn am ddiweddariad ar gyfer pob Aelod ar y gwaith a gwblhawyd ym mhob ardal a'r camau nesaf.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir ar Dydd Iau, 14 Gorffennaf, 2016 am 10.00 am**

Dywedodd Aelod fod Cyngor Tref y Fenni wedi sefydlu Cynllun Lle yn defnyddio gwirfoddolwyr gyda grwpiau o gynghorwyr. Dywedodd mai ef yw Cadeirydd Prosiect Amaeth Trefol y Fenni a'r cylch. Gellir ychwanegu'r gwaith hwn i'r Cynllun Lle.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Dywedodd y Cadeirydd y cafodd tai fforddiadwy, cynllunio lle cyfan, ailgylchu a band eang cyflym iawn eu trafod yn y cyfarfod. Cytunwyd ar y camau gweithredu dilynol:

- Gofynnwyd am ddiweddariad ar gynllunio lle cyfan ar draws y sir ar gyfer pob Aelod.
- Gwahoddir Llywodraeth Cymru i'r cyfarfod parthed craffu ymestyn band eang cyflym iawn.
- Trefnir seminar Cynllunio i Aelodau ar y Cynllun Datblygu Lleol a hefyd drafod y cynllun Datblygu Lleol yn y cyfarfod nesaf fel rhan o'r adroddiad monitro blynyddol.
- Seminar canlyniadau yn dilyn y refferendwm i'w thrafod i ystyried unrhyw effaith ar brosiectau a gyllidir gan yr Undeb Ewropeaidd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu presenoldeb.

**5. <u>Trafod canlyniadau y Brecwast Busnes yng nghyswllt:</u>**

Yn dilyn cyfarfod y Brecwast Busnes a gynhaliwyd ym mis Mai ac a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf, fe wnaethom barhau i adolygu'r materion a ddynodwyd. Croesawyd Fiona Wilton o Gymdeithas Twristiaeth Dyffryn Gwy a Choedwig Dena i'r cyfarfod. Trafodwyd y materion a godwyd yn y Brecwast Busnes fel sy'n dilyn:

- Band eang cyflym iawn: Croesawyd y drafodaeth gref ar ddarpariaeth band eang cyflym iawn ledled y sir. Dywedwyd fod angen gweithredu i gefnogi busnesau twristiaeth bach sy'n dibynnu ar farchnata digidol ac a gafodd eu llesteirio drwy ddiffyg gwasanaeth.
- Ymgysylltu Busnes: Esboniwyd cylch gorchwyl, strwythur a'r Ardal y mae'r Gymdeithas yn ei gwasanaethu. Hysbyswyd aelodau fod 300-400 aelod ar hyn o bryd. Mae'r Gymdeithas yn awyddus iawn i ymgysylltu gyda Sir Fynwy. Esboniwyd fod gan y Gymdeithas wefan effeithlon sy'n cynnwys y tair sir (Sir Fynwy (cyn belled â'r Fenni), Swydd Henffordd a Swydd Caerloyw) a dywedodd y croesewid cydlynu a chydweithredu gyda llwyfannau digidol eraill i gynyddu cyfleoedd i'r eithaf ar gyfer cysylltiadau cyhoeddus, marchnata a chyfryngau cymdeithasol.
- Gwefan i aelodau'n unig: Mae'r wefan i aelodau'n unig yn rhoi adnoddau ar gyfer busnesau a chadarnhawyd y gellid ychwanegu gwybodaeth a digwyddiadau Sir Fynwy at yr adnodd.

- Polisi: Amlygwyd yr angen i sicrhau cydlynu polisi a threfniadaeth strategol. Dywedwyd fod gan y Gymdeithas strategaeth cyrchfannau a'i fod yn ymgynghori gyda'r Pennaeth Twristiaeth yng nghyswllt hyn.

- Ymwybyddiaeth busnes: Cadarnhawyd fod llawer o fusnesau'n gweithio'n llwyddiannus mewn ardaloedd clwstwr daearyddol gan mai dyma'r ffordd y mae ymwelwyr yn gweld yr ardal.

- Cyfathrebu: Mae'r Gymdeithas yn trin diffyg cyfathrebu gydag aelodau busnes bach. Esboniwyd y cynhaliwyd cyfarfodydd gyda nifer dda'n bresennol.

- Canolfannau Croeso: Dywedwyd y dylid cadw Canolfannau Croeso ar agor cyn belled ag sy'n bosibl. Er bod Cyngor Dosbarth Coedwig Dena wedi cau canolfannau croeso, hysbyswyd aelodau fod Cyngor Tref Coleford wedi agor canolfan groeso'n llwyddiannus gyda gwirfoddolwyr yn ei staffio..

Dywedodd y Swyddog fod Cyngor Sir Fynwy yn awyddus i ymwneud â gwaith y Gymdeithas, yn arbennig gamau nad ydynt angen unrhyw lwyth gwaith ychwanegol gan fod capasiti yn gyfyngedig. Cytunwyd y gellid rhannu cynnwys ar-lein ar sail gilyddol, fel sy'n digwydd gyda chymdeithasau twristiaeth eraill sy'n gweithredu yn yr ardal. Cydnabyddir nad yw rhai busnesau yn hysbysebu ar y wefan ond cânt eu hannog i gyflwyno eu manylion i gael eu cynnwys. Croesawodd y Swyddog gyfleoedd ar gyfer cydweithio agosach. Fodd bynnag, nodwyd mai dim ond ar gyfer busnesau yng Nghymru y mae'r cyllid a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru ac efallai nad yw prosiectau bob amser yn cyd-ffinio yn y cyswllt hwn.

**Craffu Aelodau**

Holodd y Cadeirydd am y cynlluniau i sicrhau ymgysylltu gyda'r gymuned twristiaeth ehangach. Dywedodd y Swyddog y sicrhawyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i adolygu'r cynllun cyrchfan a ddaeth i ben yn 2015 ac i adolygu'r trefniadau partneriaeth sy'n sylfaen iddo. Ymgynghorir â'r holl randdeiliaid, yn cynnwys Cymdeithas Twristiaeth Dyffryn Gwy a Choedwig Dena.

Heriodd Aelod ymagwedd y Cyngor at dwristiaeth leol a dynodi'r angen i ddeall yr effaith ar yr economi lleol a dywedwyd y dylid ymchwilio pob llwybr i gynyddu cyfleoedd i'r eithaf ar gyfer refeniw o dwristiaeth.

Ymatebodd y Prif Swyddog Menter y caiff gwerth economaidd twristiaeth ei ddeall gan ychwanegu fod y Cyngor wedi buddsoddi mewn digwyddiadau ac atyniadau. Ychwanegwyd yr atgoffwyd Aelodau y bu gostyngiad o 15% yn y gyllideb sydd wedi effeithio ar allu'r Cyngor i weithredu a chyllido canolfannau croeso ond y gellid ymchwilio model arloesol. Tanlinellwyd hefyd bwysigrwydd dull gweithredu cydlynol.

Soniodd Aelod am werth cadarnhaol Brecwastau Busnes ac annog mwy o gyfleoedd am ymgysylltu gyda busnesau bach a sefydliadau busnes lleol. Dywedodd y Swyddog y cynhelir digwyddiad Ymweld â Sir Fynwy yn flynyddol gyda phresenoldeb da, yn ogystal â llawer o gyfarfodydd eraill, arddangosfeydd ac yn y blaen. Dywedodd Aelod y dylai mwy o fusnesau fod wedi mynychu'r digwyddiad a holodd am y gronfa ddata o gysylltiadau.

Gofynnodd Aelod am fodel busnes y ganolfan croeso yn Coleford ac eglurwyd bod Cyngor Tref Coleford yn darparu'r safle ac yn talu'r gorbenion, caiff ei staffio gan wirfoddolwyr a chafodd ei sefydlu gydag arbenigedd gwirfoddolwyr. Awgrymodd yr Aelod y gellid defnyddio'r un model i ddarparu canolfan croeso yng Nghas-gwent mewn cysylltiad â sefydliadau busnes lleol. Daethpwyd i'r casgliad ei bod yn werth ymchwilio'r model a awgrymwyd ymhellach. Dywedodd y Swyddog y gwneir llawer o ddefnydd o wirfoddolwyr yn barod a rhoddodd yr enghraifft o

ganolfan croeso lwyddiannus y Fenni a sefydlwyd mewn partneriaeth gyda Chyngor Tref y Fenni, Ysgubor y Degwm ac Ymddiriedolaeth Priordy Santes Fair a Chymdeithas Twristiaeth y Fenni a'r Cylch. Ychwanegwyd y comisiynwyd astudiaeth dichonolrwydd Cynllun Datblygu Gwledig i ystyried datblygu gwybodaeth gynaliadwy i ymwelwyr ar gyfer Sir Fynwy a Chasnewydd. Cydnabyddir pwysigrwydd canolfannau croeso ac awgrymwyd bod angen rhannu'r costau'n deg gyda'r rhai sy'n cael budd ohoni. Dywedwyd fod yr holl gymuned yn cael budd.

Holodd Aelod am y nifer sy'n ymweld â'r ganolfan croeso newydd yn y Fenni o gymharu gyda'r hen safle. Cytunodd y swyddog i roi'r wybodaeth a geisir yn y cyfarfod nesaf.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Swyddog fod y Cyngor yn cyfrannu arian i ganolfan croeso y Fenni, bod busnesau bach yn y dref hefyd yn cyfrannu a bod Cymdeithas Twristiaeth Bannau Brycheiniog yn rhoi cefnogaeth weinyddol. Gan ymateb i gwestiwn pellach, cadarnhaodd y Swyddog fod rhai o dywyswyr Eglwys Santes Fair yn rhoi cymorth ac wedi cwblhau hyfforddiant Llysgennad. Cytunodd y Swyddog i ddod â manylion unrhyw ostyngiad mewn incwm i'r cyfarfod nesaf hefyd.

Gofynnodd aelodau am eglurhad am arwyddion canolfannau croeso mewn gwahanol leoliadau a dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau fod peth cyllid wedi'i ddyrannu i wella arwyddion fel canlyniad i'r adolygiad o feysydd parcio. Cynhelir gwaith gyda busnesau i ymchwilio gwelliannau i ddiweddaru arwyddion.

Holodd y Cadeirydd am ymagwedd y tîm at bolisi hysbysebu a dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau y cafodd y polisi ei ddehongli'n ddychmygus i gynnig cyfleoedd arwyddion i fusnes. Mae mwy o ymrwymiad i greu incwm drwy hysbysebu tra'n hyrwyddo busnesau drwy arwyddion brown. Caiff y polisi ei adolygu i adlewyrchu'r cyllid sydd ar gael.

Gofynnodd y Cadeirydd am amserlenni a chytunodd y Pennaeth Gweithrediadau i ddod ag amserlen i gyfarfod yn y dyfodol. Ychwanegir hyn at y cynllun gwaith a gofynnir am ddiweddariadau yn unol â hynny.

Mynegodd aelodau beth pryder y dylai'r arwyddion a'r polisi fod wedi eu hadolygu'n gynharach er cyfleuster ymwelwyr haf eleni. Dywedodd y Swyddog y gwnaed llawer o waith, fel rhan o'r rhaglen Cynllun Datblygu Gwledig diwethaf, i archwilio ac adolygu arwyddion cerddwyr a phriffyrdd mewn 11 anheddiad yn y sir. Sicrhawyd cyllid i weithredu argymhellion yr adolygiad. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghoriad gyda chymunedau ac arweiniodd at e.e. arwyddion mynediad tref newydd yn cynnwys cyfeiriad at atyniadau. Ychwanegwyd fod arwyddion yn mynd yn hen yn gymharol gyflym a'i fod yn parhau mewn cyflwr da o gymharu gydag ardaloedd eraill. Esboniodd y Swyddog bod ffynonellau cyllid yn cael eu ceisio bob amser ac mae ymgyrch gyson ar gyfer gwella.

Dywedodd Aelod y bu grantiau ar gael yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru a holodd sut y caiff cyllid o'r fath ei ddosbarthu ar draws Sir Fynwy. Cadarnhaodd y Swyddog fod cefnogaeth ar gael o brosiect y Cynllun Datblygu Gwledig lle dyfarnwyd cyllid ar feini prawf ond nad yw hyn ar gael mwyach. Ychwanegir y caiff y gost ei throsglwyddo i'r busnes a gaiff ei hyrwyddo ynghyd â ffi gweinyddu fach.

Holodd Aelod os gellid amlygu atyniadau tref ar y mapiau tref a argreffir gan Siambrau Masnach i helpu ymwelwyr. Dywedodd y Swyddog y cafodd y rhan fwyaf o fapiau trefi eu hadolygu ac yn cynnwys pwyslais ar atyniadau allweddol. Gofynnodd y Cadeirydd am ysgrifennu at y Siambrau Masnach gan dynnu eu sylw at y pwynt hwn. Dywedodd Aelod fod Cyngor Tref y Fenni wedi argraffu 100,000 o fapiau i'w dosbarthu i ymwelwyr yn yr Eisteddfod. Gofynnodd y Swyddog am

fersiwn PDF i'w anfon at drefnwyr yr Eisteddfod Genedlaethol i'w gynnwys yn eu rhestri dosbarthu ar gyfer ymwelwyr sy'n gwersylla a charafanio.

Gofynnodd y Cadeirydd am i ystadegau STEAM ('Scarborough Tourism and Economic Assessment Model') gael eu cyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

Mewn ymateb i gwestiwn am gynnal mwy o Frecwastau Busnes, dywedodd y Pennaeth Economi a Menter wrth Aelodau fod y gronfa ddata yn cynnwys dros 2300 cofnod a rannwyd yn sectorau ac ychwanegodd fod llu o weithgareddau rhwydweithio ar gyfer busnesau ac y gall Aelodau fynychu'r digwyddiadau hyn. Mae'r dyddiadau ar gael ar adran Menter y wefan. Oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau, ychwanegwyd nad oes capasiti i drefnu brecwastau busnes fel arall.

Crynodeb y Cadeirydd:

Diolchodd y Cadeirydd i Fiona Wilton am fod yn bresennol ac am ei chyfraniad i'r cyfarfod, gan gydnabod y drafodaeth gadarnhaol a dynodi meysydd ar gyfer gweithio agosach. Byddai'r Cadeirydd yn croesawu ei phresenoldeb mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Dynododd y Cadeirydd gamau gweithredu o'r cyfarfod yn cyfeirio at y Cynllun Rheoli Cyrchfannau a fydd ar gael ar gyfer ymgynghoriad i Aelodau Ward ac Aelodau Pwyllgor yn y dyfodol agos.

Roedd y Cadeirydd yn cydnabod y teimladau cryf am Ganolfan Croeso Cas-gwent a gofynnodd am ymchwilio opsiynau tebyg i fodel Coleford.

Yng nghyswllt arwyddion brown a gwyn, dywedodd y Cadeirydd y dylai'r polisi gael ei adolygu a'i ychwanegu at y flaenraglen waith.

Wrth edrych i'r dyfodol, dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn adolygu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dwristiaeth ym mis Chwefror cyn ei fabwysiadu ym mis Ebrill.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu cyfraniad ac am eu presenoldeb.

**6. Adolygu cynnydd Bwrdd Rhanbarth Dinas Caerdydd - cyflwyniad.**

Rhoddodd Prif Swyddog Menter gyflwyniad ar Ddêl Dinas Caerdydd yn esbonio y bydd y Cynghorydd Sir P. Fox yn rhoi adroddiad ar gynnydd gyda Bwrdd Trosiant Dêl Dinas Prifddinas-Ranbarth Caerdydd maes o law.

Cyflwynodd y Prif Swyddog y Ddêl Dinas gan esbonio y bydd yn rhoi buddsoddiad ar gyfer twf economaidd ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru a 10 awdurdod lleol. Esboniwyd fod y Ddêl Dinas yn cynnwys cronfa buddsoddi seilwaith o £1.2 biliwn ar gyfer prosiectau a rhaglenni a all roi adenilliad buddsoddiad o fewn y rhanbarth.

Yn dilyn y cyflwyniad, holodd Aelod am y cynlluniau i ddarparu gwell sgiliau TG i athrawon i ategu'r datblygiadau. Dywedodd y Cadeirydd y cynhaliwyd cyd-gyfarfod rhwng Economi a Datblygu a Phwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc ar 11 Gorffennaf 2016 yn canolbwyntio ar ddarpariaeth a sgiliau TG.

Ymatebodd Prif Swyddog Menter ei bod yn bwysig fod y swyddi a gaiff eu creu ar gyfer ein pobl ifanc a chyfeiriodd at sefydlu'r Bartneriaeth Sgiliau Dysgu ac Arloesedd ar gyfer De Ddwyrain

Cymru i roi gwybodaeth ar gyfer y gofynion sgiliau o'r blynyddoedd cynnar i addysg uwch yn gysylltiedig â gwybodaeth economaidd yn y rhanbarth.

Gofynnodd Aelod gwestiwn am barhad cefnogaeth ariannol ar gyfer ymchwil wyddonol a'r goblygiadau ar gyfer y prosiect Metro yn dilyn Brexit. Gofynnwyd hefyd sut i sicrhau atebolrwydd a buddion y Ddêl Dinas ar gyfer ein hetholwyr.

Ni fedrai'r Prif Swyddog Menter roi sylwadau gan fod goblygiadau Brexit yn aneglur ar hyn o bryd. Tynnwyd sylw aelodau at IQE, cwmni sydd yn arwain ym maes datblygu uwch led-ddargludyddion cyfansawdd gyda photensial i wireddu nifer sylweddol o gyfleoedd swydd yn y dyfodol. Nododd y Prif Swyddog Menter bwysigrwydd cydnabod y Pwynt Gwerthu Unigryw ar gyfer Sir Fynwy a'r rhanbarth.

Mewn ymateb i gwestiwn, eglurwyd unwaith y bydd y deg awdurdod lleol wedi llofnodi'r cytundeb, y bydd pob un yn cael cyfle i gael mynediad i gyllid ar gyfer prosiectau sydd fwyaf perthnasol i'w ardal. Mae'n rhaid i brosiectau arfaethedig gael maint ac arwyddocâd rhanbarthol a bod yn berthnasol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Nododd y Cadeirydd yr angen i weithio gyda chymunedau, yn cynnwys yr ardaloedd anodd eu cyrraedd, i gefnogi creu swyddi o wahanol lefelau. Holwyd, er enghraifft, os gellid cynyddu'r cynllun prentisiaeth ar gyfer yr holl ranbarth i sefydlu cyfleoedd lefel mynediad sy'n tyfu i swyddi llawn-amser ar gyflog da.

Gofynnodd Aelod am gwestiynau ar gyfer ymgysylltu tu allan i Gymru.

Cytunodd Prif Swyddog Menter fod ymagwedd gydlynol gyda Gorllewin Lloegr i'w annog a chyfeiriodd at sefydlu cysylltiadau gyda phartneriaeth Dinasoedd Great Western a Business West.

Awgrymwyd y gallai camau bach gynnwys cynrychiolaeth o sefydliadau cyflogwyr a chyflogwyr ar gyrff llywodraethu ysgolion.

Trafododd aelodau bwysigrwydd buddsoddi mewn seilwaith yn benodol yn nhermau trafnidiaeth a chyfathrebu a band eang cyflym iawn. Dywedwyd na fydd y Metro arfaethedig yn helpu rhai ardaloedd o Sir Fynwy gan nodi fod y mynediad i fysus yn gyfyngedig a bod ardaloedd y Cymoedd a Chaerdydd yn fwy tebygol o dderbyn buddsoddiad. Dywedwyd y dylai sefydliadau addysg uwch ganolbwyntio ar bynciau mwy technolegol.

Dywedodd y Prif Swyddog Menter fod Prifysgol Caerdydd mewn cysylltiad gyda Sefydliad Alacrity yn mynd rhagddynt yn dda i sefydlu academi meddalwedd genedlaethol i ostwng hyd cyrsiau gradd ac arbenigo mewn datblygu meddalwedd ar gyfer diwydiannau technolegol.

Cytunodd y Cadeirydd y byddid yn trefnu ymweliad anffurfiol ar gyfer gwybodaeth Aelodau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu cyfraniadau i'r cyfarfod.

## 7. Blaen-raglen gwaith Economi a Datblygiad

Cyflwynwyd y Flaen-raglen Gwaith.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir ar Dydd Iau, 14 Gorffennaf, 2016 am 10.00 am**

**8. <u>Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf sef dydd Iau 1 Medi 2016</u>**

Gohiriwyd y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 1 Medi 2016 tan 27 Medi 2016 am 1.00pm (blaengyfarfod am 12.30pm).

**Y cyfarfod i ben am 1.10pm.**